Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

*Archwilio*

# Eglwys y Plwyf

Leslie J Francis

a Tania ap Siôn

Darluniwyd gan

Phillip Vernon



Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

# Archwilio Eglwys y Plwyf

Leslie J. Francis a Tania ap Siôn

Darluniwyd gan Phillip Vernon

Bear Lands Publishing

Yn y Gyfres Crefyddau’r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara’n dysgu am brif grefyddau’r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
- Archwilio Iddewiaeth
- Archwilio’r Eglwys y Plwyf
- Archwilio’r Eglwys Uniongred
- Archwilio Hindŵaeth
- Archwilio Bwdhaeth
- Archwilio Sikhiaeth

Cyhoeddwyd gyntaf 2008 gan y Ganolfan Genedlaethol
Addysg Grefyddol,
Prifysgol Bangor
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan
Bear Lands Publishing,
Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn,
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

*Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw*

# Archwilio Eglwys y Plwyf

## Pwy yw eich ffrindiau? Ydych chi'n gwybod popeth amdanyn nhw? Ydyn nhw'n gwybod popeth amdanoch chi?

Stori yw hon am ffrindiau sydd ddim yn gwybod popeth am ei gilydd. Ond maen nhw'n dechrau dysgu am rai pethau mae eu ffrindiau'n eu gwneud, a pham maen nhw'n eu gwneud. Darllenwch eu stori ac efallai y dysgwch chi rywbeth newydd hefyd!





# 1. Ymweld ag eglwys y plwyf

Roedd Rhys a Sara wedi dod i adnabod Tomos a Bethan yn eithaf da ers i'r ddau symud i fyw i'r tŷ drws nesaf rai blynyddoedd yn ôl. Fe fydden nhw'n ymweld â chartrefi ei gilydd i chwarae, ac yn aros weithiau i gael te. Ambell dro, fe fydden nhw'n aros dros nos, ac fe fyddai hynny'n hwyl.

Roedd tad Tomos a Bethan yn athro gwyddoniaeth yn yr ysgol uwchradd leol. Roedd eu mam yn offeiriad yn eglwys y plwyf, Eglwys Dewi Sant. Roedden nhw'n deulu Cristnogol.

Fe fyddai Mrs Davies, mam Tomos a Bethan, yn aml yn gwisgo'n wahanol i'r rhan fwyaf o famau eraill. Gwisgai wisg arbennig i nodi ei bod yn offeiriad. Weithiau fe fyddai'n gwisgo coler wen glerigol gyda chrys du smart, neu efallai grys o liw arall. Ambell dro, fe fyddai'n gwisgo casog ddu, laes at ei thraed. Roedd Rhys a Sara yn rhyfeddu na fyddai'n baglu wrth gerdded yn y wisg honno.

Un bore Sul, roedd Rhys a Sara wedi gwisgo eu dillad gorau. Roedd Tomos a Bethan wedi eu gwahodd i wasanaeth yn Eglwys Dewi Sant.



Roedd yn ddydd Sul arbennig i Tomos a Bethan am eu bod yn mynd i gael cymun am y tro cyntaf.

'Rydyn ni wedi bod yn mynd i'r eglwys ers pan oedden ni'n fabanod,' meddai Bethan wrth Sara. 'A heddiw, rydyn ni'n cael ein gwahodd i dderbyn cymun am y tro cyntaf.'

'Rydyn ni wedi dilyn cwrs i baratoi ar gyfer hyn,' ychwanegodd Tomos. 'Nawr, rydyn ni'n barod i gymryd rhan lawn ym mywyd ein heglwys.'

Roedd Rhys a Sara yn falch o gael bod yn rhan o ddiwrnod arbennig eu ffrindiau. Wedi iddyn nhw gyrraedd yr eglwys, eisteddodd Rhys a Sara mewn sedd gyda Tomos a Bethan a Mr Davies.

Eisteddodd y plant yn llonydd iawn gan wrando ar gerddoriaeth yr organ.



Pan ddaeth cerddoriaeth yr organ i ben, cododd pawb ar ei draed i ganu'r emyn cyntaf. Yn ystod yr emyn, syllodd Rhys a Sara mewn rhyfeddod ar orymdaith y côr a'r clerigwyr.

Yn arwain yr orymdaith, yr oedd y croes gludwyr, yn cario croes dal. Y tu ôl i'r groes, roedd y ddau was allor, yn cario canhwyllau'r orymdaith. Roedden nhw'n gwisgo albau gwynion, llaes. Yna, fe ddaeth bechgyn a genethod, a dynion a merched y côr, pob un ohonyn nhw'n gwisgo gwenwisgoedd dros gasogau duon, llaes. Yn dilyn y côr, roedd y darllenydd, yn gwisgo gwenwisg a sgarff las. Ac yna, ar ddiwedd yr orymdaith, yr oedd Mrs Davies. Gwisgai Mrs Davies gasul euraid, oedd yn nodi mai hi fyddai'n arwain y gwasanaeth cymun.




Aeth Mrs Davies i'w lle y tu ôl i'r allor. Daeth dyn a dynes o'r gynulleidfa i ddarllen llith yr un, o'r Beibl. Darllenodd Mrs Davies ran arbennig o'r Efengyl yn ôl Sant Marc. Yna, daeth y darllenydd ymlaen i bregethu.

Gwyliodd Rhys a Sara rai plant o'r gynulleidfa yn cario plât a bara arno, a jwg o win a jwg o ddwr, at yr allor. Rhoddodd Mrs Davies y bara ar yr allor a dweud,

'Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Trwy dy ddaioni y mae gennym y bara hwn i'w offrymu.'

Arllwysodd Mrs Davies y gwin i gwpan cymun, arian, ac ychwanegu ychydig o ddŵr ato. Dywedodd,

'Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Trwy dy ddaioni y mae gennym y gwin hwn i'w offrymu.'



Galwodd Mrs Davies bawb at yr allor. Aeth Rhys a Sara ar ôl Tomos a Bethan. Symudodd pawb yn araf a pharchus nes daeth eu tro i benlinio o flaen yr allor.

Estynnodd Bethan ei llaw, a rhoddodd Mrs Davies ddarn bach o fara arni, gan ddweud, ‘Corff Crist.’ Atebodd Bethan, ‘Amen’, cyn bwyta’r bara. Rhoddodd y darllenydd y cwpan cymun i Bethan, gan ddweud, ‘Gwaed Crist.’ Atebodd Bethan, ‘Amen’, cyn cymryd llymaid o’r gwin. Plygodd Rhys a Sara eu pennau a gosododd Mrs Davies ei llaw ar ben Rhys ac ar ben Sara, yn eu tro, a’u bendithio. Teimlai Rhys a Sara yn arbennig iawn.

Wrth fynd i’r eglwys gyda Tomos a Bethan, roedd Rhys a Sara wedi dysgu llawer am eu ffrindiau. Roedden nhw wedi dysgu bod Cristnogion yn credu ei bod hi’n bwysig addoli Duw gyda’i gilydd, fel cymuned. Rhan bwysig o’r addoliad yma yw’r gwasanaeth cymun lle mae’r gymuned ynghyd yn rhannu bara a gwin.





## 2 Cymun noswyl y Nadolig

Y diwrnod cyn y Nadolig oedd hi, ac roedd Rhys a Sara yn cyffroi fwyfwy. Pan gyrhaeddodd y postmon y bore hwnnw, roedd mwy nag erioed o gardiau Nadolig iddyn nhw. Fe wydden nhw na ddoi dim rhagor eto trwy'r post, ar wahân i'r un neu ddau fyddai bob amser yn cyrraedd ar ôl y Nadolig. Fyddai Yncl Randolff byth yn postio ei gardiau mewn pryd.

Felly, treuliodd Rhys a Sara ychydig o amser yn edrych trwy'r holl gardiau roedden nhw wedi'u cael, unwaith eto, cyn eu gosod i fyny ar gyfer y Nadolig. Ar rai o'r cardiau roedd golygfeydd o eglwysi, a thai, a strydoedd hen ffasiwn dan orchudd o eira. Roedd llun robin goch ar ambell un, a chelyn gwyrdd ac aeron coch, neu ganhwyllau Nadoligaidd. Eleni, roedd sawl un â llun tedi arno, a rhai yn darlunio stori Gŵyl y Geni.

Roedd y cerdyn gawson nhw gan Tomos a Bethan yn wahanol i'r lleill. Llun Eglwys Dewi Sant oedd ar y tu allan. Ar y tu mewn, roedd rhestr o wasanaethau Nadolig yr eglwys.

Heno, roedd gwasanaeth cymun noswyl y Nadolig, ac roedd yn dechrau am hanner awr wedi un ar ddeg. Roedd Rhys a Sara yn cael mynd i'r gwasanaeth am y tro cyntaf.



Am un ar ddeg o'r gloch, gwisgodd Rhys a Sara eu cotiau cynnes a disgwyl yn eiddgar i gloch drws eu cartref ganu. Roedd Tomos a Bethan yn galw amdanyn nhw i fynd i wasanaeth cymun noswyl y Nadolig. Doedd Rhys a Sara erioed o'r blaen wedi aros ar eu traed mor hwyr ar noswyl y Nadolig.

Y tu allan roedd ias oer yn yr awyr. Roedd haen o farrug disglair yn gorchuddio'r ceir. Dawnsiai goleuadau lliwgar y Nadolig yn ffenestri'r siopau. Synnodd Rhys a Sara wrth glywed sŵn clychau'r eglwys yn diasbedain trwy awyr glir y nos. Roedd chwech o glychau yn nhŵr Eglwys Dewi Sant.

Eglurodd Mr Davies, 'Mae angen un person ar gyfer pob cloch, i'w canu. Felly, heno, rydych chi'n gallu clywed pob un o'r chwech yn cael eu canu gyda'i gilydd. Rydyn ni'n galw hyn yn canu'r amrywiadau.' Arhosodd Rhys a Sara yn eu hunfan i wrando.



Wrth iddyn nhw gyrraedd drws yr eglwys, roedd Rhys a Sara yn gallu clywed y côr yn canu. Fel y cerddai'r bobl i mewn, roedden nhw'n cael eu croesawu â seiniau llawen, carolau Nadolig cyfarwydd. Roedd Rhys a Sara wedi dysgu rhai ohonyn nhw yn yr ysgol. Roedden nhw'n gallu ymuno yn rhythmau'r hwiangerdd 'I orwedd mewn preseb', yn nistawrwydd seiniau 'Dawel nos', ac yng nghyffro cytgan 'Wele yn y preseb tlawd'.

Roedd rhai pobl yn mynd ar eu hunion i'w seddau, ond roedd rhai eraill yn rhoi tro o gwmpas i edmygu'r addurniadau Nadolig. Wrth ddrws Capel Mair, roedd coeden Nadolig enfawr. O dan y goeden, roedd nifer fawr o anrhegion. Fe fyddai'r anrhegion yn cael eu rhannu ar ward y plant yn yr ysbyty lleol.



Edrychodd Rhys a Sara ar stori'r Nadolig wedi'i darlunio gan blant o ysgolion lleol mewn nifer o luniau mawr ar waliau'r eglwys.

Fe welson nhw'r Angel Gabriel yn dweud wrth Mair y byddai hi'n cael babi bach, a'i enw fyddai Iesu.

Fe welson nhw Mair a Joseff yn cychwyn ar eu taith hir i Fethlehem, lle cafodd Iesu ei eni.

Fe welson nhw ŵr y llety yn arwain Mair a Joseff i'r stabl, am fod y llety'n llawn.

Fe welson nhw'r baban Iesu wedi'i osod ym mhreseb yr anifeiliaid, fel gwely dros dro, a'r anifeiliaid yn edrych arno.

Fe welson nhw angylion yn galw'r bugeiliaid oddi wrth eu defaid i fynd i weld y baban Iesu.

Fe welson nhw'r doethion yn dilyn y seren i fynd â'u hanrhegion o aur a thus a myrr i'r baban Iesu.



Am hanner awr wedi un ar ddeg, dechreuodd y gwasanaeth. Gwisgai Mrs Davies gasul arbennig ar gyfer yr ŵyl, ac roedd yn cael ei harwain gan y croes gludwyr a'r gweision allor at y preseb Nadolig hynod oedd wedi'i osod ym mhen blaen yr eglwys. Bendithiodd Mrs Davies y preseb a gweddïo Colect Dydd Nadolig Crist.

> 'Dduw tragwyddol,
> a wnaeth i'r noson fwyaf sanctaidd hon
> lewyrchu â disgleirdeb dy unig wir oleuni:
> dwg ni, sydd wedi adnabod datguddiad y goleuni hwnnw ar y ddaear,
> i weld llewyrch dy ogoniant nefol;
> trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
> Amen.'

Yna, roedd cymun cyntaf y Nadolig ar fin dechrau.

Ar ôl cymryd rhan yng ngwasanaeth cymun noswyl y Nadolig gyda'u ffrindiau Tomos a Bethan, roedd Rhys a Sara yn teimlo eu bod yn deall yn well beth yw ystyr y Nadolig i Gristnogion heddiw. Dydi gwir ystyr y Nadolig ddim i'w weld yn y cardiau sydd â llun robin neu gelyn arnyn nhw, neu olygfeydd hen ffasiwn yn yr eira. Mae i'w weld yn y cardiau sy'n darlunio stori geni Iesu.





## 3 Defnyddio'r Beibl

Ar y diwrnod yr oedd Tomos a Bethan yn cael eu cymun cyntaf, rhoddodd Mr a Mrs Davies Feibl bob un iddyn nhw. Y tu mewn i glawr y Beibl, roedden nhw wedi ysgrifennu'r neges:

> Plentyn Duw wyt ti,
> a'i air a'i sacrament sy'n dy gefnogi.


Rai wythnosau'n ddiweddarach, fe welodd Rhys a Sara Feibl Tomos yn ei ystafell. Darllenodd y ddau'r neges y tu mewn i'r clawr. Doedd Sara ddim yn deall, ac fe ofynnodd i Tomos beth oedd ystyr y neges. Meddyliodd Tomos am foment cyn dweud, 'Y gair yw'r Beibl. Y sacrament yw'r bara a'r gwin. Fel Cristnogion, rydyn ni'n tyfu yn ein ffydd trwy ddarllen gair Duw yn y Beibl a thrwy dderbyn y sacrament o fara a gwin.'

Agorodd Rhys a Sara y Beibl a gweld ei fod wedi'i rannu'n ddwy brif ran. Enw'r rhan gyntaf yw'r Hen Destament, ac enw'r ail ran yw'r Testament Newydd.

Yn yr Hen Destament, mae 39 o lyfrau gwahanol. Yn y Testament Newydd, mae 27 o lyfrau. Dywedodd Tomos, 'Mae'r Beibl fel llyfrgell gyfan o lyfrau gyda llawer o wahanol storïau. Mae'r storïau'n ein helpu i ddeall pwy yw Duw, a sut i fyw bywyd da.'

Bron bob nos Fawrth, fe fyddai wyth neu naw o bobl yn dod i gartref Tomos a Bethan i'r Grŵp Astudio'r Beibl. 'Dyna pryd y mae arweinwyr yr addoliad yn yr eglwys yn cwrdd i ddarllen y Beibl a pharatoi ar gyfer y gwasanaeth ar y Sul,' meddai Bethan.


Bron bod dydd Iau, ar ôl yr ysgol, mae plant yr eglwys yn dod i dŷ Tomos a Bethan. 'Mae'r Clwb Dydd Iau yn hwyl,' meddai Tomos. 'Rydyn ni'n gwrando ar stori o'r Beibl. Wedyn, fe fyddwn ni'n gwneud poster neu fodel i fynd gyda ni i'r eglwys ar y Sul i ddangos y stori i'r oedolion yno.'



Roedd Rhys a Sara yn gwybod fod y Beibl yn bwysig iawn yn eglwys Tomos a Bethan. Roedden nhw wedi bod ar ymweliad ysgol ag Eglwys Dewi Sant.

Yn ystod yr ymweliad hwnnw, roedd Rhys a Sara wedi holi Mrs Davies am yr aderyn pres disglair mawr oedd yn sefyll ym mhen blaen yr eglwys, gyda'i adenydd ar led. 'Yr eryr yw hwn', meddai Mrs Davies. 'Mae'n cario'r Beibl ar ei adenydd i ddod â gair Duw i'r holl fyd. Mae pobl yn sefyll tu ôl i'r eryr i ddarllen yn uchel o'r Beibl yn ein gwasanaethau.'

Eglurodd Mrs Davies i Rhys a Sara fod Cristnogion yn darllen y Beibl gartref i ddysgu am Dduw. 'Ond yr hyn sy'n gwneud y Beibl yn wirioneddol fyw i mi,' meddai, 'yw sut rydyn ni'n defnyddio'r Beibl yn ein gwasanaethau ar y Sul. Beth am i chi ddod i weld?'



Felly, y dydd Sul canlynol aeth Rhys a Sara i'r gwasanaeth gyda Tomos a Bethan. Y tro yma roedden nhw eisiau gweld sut roedd y Beibl yn cael ei ddefnyddio yn yr eglwys.

Yn ystod y gwasanaeth, gwelodd Rhys a Sara ddyn yn cerdded at yr eryr disglair. Cyn dechrau darllen dywedodd, 'Daw'r darlleniad cyntaf o'r Hen Destament.' Yna, ar ddiwedd y darlleniad, fe ddywedodd, 'Dyma air yr Arglwydd,' a dywedodd pawb, 'Diolch a fo i Dduw.'

Yn ddiweddarach yn y gwasanaeth, gwelodd Rhys a Sara ddynes yn cerdded at yr eryr disglair. 'Daw'r ail ddarlleniad o'r Testament Newydd,' meddai. Ac yna, ar ddiwedd y darlleniad, dywedodd hithau, 'Dyma air yr Arglwydd,' a dywedodd pawb, 'Diolch a fo i Dduw.'



Roedd y trydydd darlleniad yn arbennig iawn. Roedd hwnnw'n dod o un o'r pedair Efengyl, a'r tro yma roedd pawb yn codi ar ei draed i wrando. Aeth y groes gludydd i nôl y Beibl oddi ar yr eryr a'i gario i ganol yr eglwys. Safodd y ddau was allor un bob ochr iddo, gan ddal eu canhwyllau yn uchel. Rhoddodd Mrs Davies, yr offeiriad, gusan i'r Beibl cyn darllen rhan o'r Efengyl yn ôl Marc.



Aeth Rhys a Sara adref o'r eglwys yn gwybod pa mor bwysig oedd y Beibl i'w ffrindiau, Tomos a Bethan, ac i'r holl bobl oedd yn addoli yn Eglwys Dewi Sant. Gartref, mae Cristnogion yn astudio'r Beibl i dysgu am Dduw a sut i fyw eu bywydau'n dda. Yn yr eglwys, mae Cristnogion yn darllen y Beibl yn uchel, i ddathlu sut mae Duw yn gofalu am ei bobl ac i ddysgu beth yw ystyr gair Duw i Gristnogion heddiw.





## 4 Cymorth Cristnogol

Roedd Rhys a Sara yn mynd i'r un ysgol gynradd â Tomos a Bethan. Roedd hi'n ysgol fawr, gyda nifer o wahanol ddosbarthiadau. Roedd gwahanol athrawon yn dysgu'r dosbarthiadau, ac fel rheol, fe fyddai'r grwpiau blwyddyn yn dilyn gwahanol wersi. Ond ambell dro, fe fyddai'r ysgol gyfan yn gweithio ar brosiect arbennig.

Yn gynnar ym mis Medi, fe ddaeth Mrs Williams i ymweld â'r ysgol. Roedd hi'n dod o'r Ganolfan Addysg Ddatblygol, ac fe aeth hi o gwmpas yr holl ddosbarthiadau yn eu tro. Fe helpodd hi'r ysgol i ddechrau prosiect arbennig ar fasnach deg.

Hyd at y gwyliau hanner tymor, gweithiodd pob dosbarth yn galed i wneud arddangosfa fawr, yng nghyntedd yr ysgol, am fasnach deg.

Cafodd ymweliad Mrs Williams â'r ysgol ei noddi gan Oxfam a Chymorth Cristnogol. Mae Oxfam a Chymorth Cristnogol yn gwneud yr un math o waith. Maen nhw'n ddwy elusen sy'n gweithio dros ddatblygiad yn y byd, ac maen nhw'n cydweithio'n dda. Ond mae Cymorth Cristnogol yn wahanol i Oxfam mewn un ffordd arbennig. Sefydlwyd Cymorth Cristnogol gan yr Eglwysi Cristnogol mewn ymateb i'r alwad Gristnogol i helpu pobl dlawd y byd, yn enw Duw.



Archwiliodd dosbarth Sara a Bethan daith banana, o'r goeden lle tyfodd, i'w siop leol.

Mae'r daith yn dechrau gyda gwaith caled yr un sy'n eu tyfu, ymhell yn y Caribî. Mae cwmni datblygu yn helpu'r un sy'n eu tyfu i werthu'r bananas. Mae cwmnïau llongau, mewnforio, a phecynnu yn gofalu fod y bananas yn cyrraedd ein gwlad ni yn ddiogel. Yna, mae cyfanwerthwr yn prynu'r bananas ac yn eu gwerthu i wahanol fân-werthwyr neu siopau.

Roedd plant y dosbarth wedi synnu gweld cyn lleied o arian yr oedd y rhai oedd yn eu tyfu yn ei gael am eu bananas. Mae hyn yn golygu eu bod yn byw mewn tlodi. Mae nifer o'r bobl eraill sy'n ymwneud â thaith y bananas yn cael llawer mwy o arian. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n llawer cyfoethocach. Meddyliodd y plant fod hynny'n annheg.

Lluniodd plant dosbarth Sara a Bethan boster yn dangos yr hyn roedden nhw wedi'i ddysgu am fananas. Cafodd y poster ei arddangos yn neuadd yr ysgol.



Bu dosbarth Rhys a Tomos yn ymweld ag un o'r archfarchnadoedd lleol i ddod i wybod mwy am gynnyrch masnach deg. Safodd Rhys wrth fynedfa'r archfarchnad a gofyn i siopwyr lenwi holiadur ar fasnach deg. Roedd yr holiadur yn gofyn pedwar cwestiwn.

> Ydych chi'n prynu cynnyrch masnach deg?
> Os ydych chi'n prynu cynnyrch masnach deg, beth fyddwch chi'n ei brynu?
> Os ydych chi'n prynu cynnyrch masnach deg, pam rydych chi'n eu prynu?
> Os nad ydych chi'n prynu cynnyrch masnach deg, pam nad ydych chi'n eu prynu?

Fe fu Tomos yn cyfweld rheolwr yr archfarchnad ynglŷn â chynnyrch masnach deg yn yr archfarchnad. Fe luniodd restr o'r holl gynnyrch masnach deg yr oedd yr archfarchnad yn eu gwerthu.


Yn ôl yn yr ysgol, lluniodd plant dosbarth Rhys a Tomos boster i ddangos yr hyn roedden nhw wedi'i ddysgu yn yr archfarchnad. Cafodd y poster ei arddangos yn neuadd yr ysgol.



Wedi i bob dosbarth orffen eu gwaith, fe ddaeth Mrs Williams yn ôl i'r ysgol i ymuno mewn dathliad mawr. Daeth arweinwyr yr eglwysi lleol a grwpiau ffydd eraill yno hefyd.

Daeth plant o bob dosbarth i ddweud wrth bawb beth roedden nhw wedi'i wneud, a beth roedden nhw wedi'i ddysgu. Fe soniodd y rhan fwyaf o'r plant am ddau beth pwysig. Roedden nhw'n credu fod masnach y byd yn annheg am ei bod yn achosi llawer o dlodi yn y byd. Roedden nhw wedi dysgu ei bod hi'n bosib gwneud rhai pethau i newid hyn.

O hyn allan, te a choffi masnach deg yn unig fyddai'n cael ei yfed yn ystafell yr athrawon. O hyn allan, bananas masnach deg yn unig fyddai'n cael eu gwerthu yn siop yr ysgol.



Roedd gwaith y plant wedi gwneud cymaint o argraff ar Mrs Davies fe ofynnodd hi gai hi fynd â'u harddangosfa i Eglwys Dewi Sant.

Yn y gwasanaeth ar y dydd Sul, soniodd Mrs Davies am waith Cymorth Cristnogol. Darllenodd o'r Beibl sut y gwnaeth Iesu ddysgu'r rhai oedd yn ei ddilyn, i drin pawb yn deg. Yn Efengyl Luc, pennod 6, dywedodd Iesu,

> Rho i bawb sy'n gofyn gennyt,
> ac os bydd rhywun yn cymryd dy eiddo, paid â gofyn amdano'n ôl.
> Fel y dymunwch i eraill wneud i chwi, gwnewch chwithau yr un fath iddynt hwy.
> Os ydych yn caru'r rhai sy'n eich caru chwi,
> pa ddiolch fydd i chwi?

Dywedodd Mrs Davies fod Cymorth Cristnogol wedi'i sefydlu i weithredu syniadau Iesu yn y byd heddiw.

Fel llawer o blant eraill yr ysgol, aeth Rhys a Sara i Eglwys Dewi Sant i weld yr arddangosfa o'u gwaith. Trwy wrando ar Mrs Davies, fe wnaethon nhw ddysgu sut mae Cristnogion yn cael eu hysbrydoli i drin pawb yn deg, yn union fel y dysgodd Iesu i ni.





# 5 Dathlu Gŵyl y Cynhaeaf

Yn niwedd mis Medi, roedd eglwys y plwyf yn dathlu Gŵyl o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf. Rhoddodd Tomos a Bethan wahoddiad i'w ffrindiau, Rhys a Sara, ymuno â nhw yn y gweithgareddau.

Ar y bore Sadwrn, roedd llawer o ffrindiau Tomos a Bethan yn cwrdd yn neuadd yr eglwys i fod yn rhan o brosiect. Thema'r prosiect oedd 'Bara a Gwin'. Yn ystod y diwrnod, roedd nifer o weithdai gwahanol y gallen nhw ddewis cymryd rhan ynddyn nhw.

Yn y bore, ymunodd Rhys a Tomos â grŵp oedd yn ymweld â'r archfarchnad leol. Fe wnaethon nhw ddysgu am yr holl wahanol fathau o fara oedd yno, a dod â pheth yn ôl gyda nhw i'r eglwys. Roedd yno baguette hir o Ffrainc, bara ciabatta o'r Eidal, a bara naan o India. Wedi iddyn nhw ddod yn ôl i'r neuadd, lluniodd y grŵp collage i'w osod ar flaen yr allor. Teitl y collage oedd 'Bara ledled y byd'. Gwelodd Rhys sut roedd bara yn uno pobloedd y byd.

Yn y bore, ymunodd Sara a Bethan â grŵp oedd yn ymweld â fferm. Fe wnaethon nhw ddysgu sut mae blawd yn cael ei gynhyrchu. Roedd y stori'n ymwneud â hau'r hadau, y glaw, yr haul, a'r maetholion yn y pridd. Roedd y stori'n sôn am y bobl fu'n adeiladu'r tractor, yn cynaeafu'r grawn, ac yn gweithio'r melinau i falu'r blawd. Wedi iddyn nhw ddod yn ôl i'r neuadd, fe fu'r grŵp yn paratoi dawns i'w pherfformio, ar y thema 'Ffrwythau'r ddaear a gwaith dwylo dynol'.



Yn y pnawn, ymunodd Rhys a Tomos â grŵp oedd yn pobi bara. Roedd y plant fu'n ymweld â'r fferm wedi dod â llond bag o'r grawn gyda nhw. Malodd Rhys y grawn mewn melin law a'i wneud yn flawd.

Ychwanegodd Tomos furum a dŵr at y blawd, a'i gymysgu'n does. Yna fe fu'n tylino'r toes am amser, cyn ei adael i chwyddo i ddwbl ei faint yng ngwres y rheiddiadur. Fe wnaethon nhw ddefnyddio'r toes i wneud pob math o siapiau diddorol. Lluniodd rhai o'r plant dorth arbennig ar siâp ysgub o ŷd. Fe wnaeth rhai plant eraill dorthau bach y gallen nhw'u defnyddio yng ngwasanaeth cymun Gŵyl y Cynhaeaf.

Gwelodd Rhys a Tomos sut roedd y bara oedd yn cael ei ddefnyddio yn y gwasanaeth cymun yn cynrychioli holl ffrwythau'r ddaear a gwaith dwylo dynol.



Yn y pnawn ymunodd Sara a Bethan â grŵp oedd yn gwneud gwin. Y diwrnod cynt, roedd Mrs Davies wedi bod allan yn y wlad yn casglu mwyar duon aeddfed, suddog. Golchodd Sara y mwyar yn ofalus.

Pwysodd Bethan y mwyar ar glorian hen ffasiwn. Roedd angen i'r plant ychwanegu'r mesur cywir o ddŵr, y mesur cywir o siwgr, a'r mesur cywir o furum.

Fe wnaethon nhw arllwys y gymysgedd i boteli gwydr arbennig. Wedyn, gosod corcyn mawr a falf yng ngheg y botel. Yna, roedd angen preimio'r falf â dŵr. Fel roedd yr eplesiad yn dechrau, roedd swigod aer yn dianc o'r botel, ond doedd dim posib i facteria fynd i mewn i'r gwin oedd yn eplesu.

Gwelodd Sara a Bethan sut roedd y gwin oedd yn cael ei ddefnyddio yn y gwasanaeth cymun yn cynrychioli holl ffrwythau'r ddaear a gwaith dwylo dynol.



Trwy gydol y dydd Sadwrn, roedd rhai o'r plant yn helpu'r oedolion i addurno Eglwys Dewi Sant ar gyfer y gwasanaeth ar y Sul, drannoeth. Ar gyfer y gwasanaeth diolchgarwch am y cynhaeaf, roedd yr eglwys yn llawn o ffrwythau'r ddaear. O gwmpas y fedyddfaen, roedd tatws, moron, pannas, a chennin. O flaen yr allor, roedd tuniau o bêrs, eirin gwlanog, grawnffrwyth, ac afal pîn. Roedd yno afalau aeddfed a phêrs euraid.

Ar gyfer y gwasanaeth diolchgarwch am y cynhaeaf, roedd yr eglwys yn llawn o waith dwylo dynol. Yng Nghapel Mair, roedd y ffermwyr lleol wedi arddangos rhawiau, hofiau, a phladuriau o'r dyddiau a fu. Roedden nhw hefyd wedi dod ag erydr ac offer chwistrellu sy'n cael eu defnyddio ar y ffermydd y dyddiau hyn.

Ar y dydd Sul, gosododd y plant eu collage ar yr allor, ac fe wnaethon nhw gyflwyno'r ddawns am stori'r blawd.



Pan ddaeth hi'n amser paratoi'r allor ar gyfer y cymun, cariodd Tomos a Rhys y bara roedden nhw wedi'i wneud. Cariodd Bethan a Sara y botel fawr o'r gwin oedd yn eplesu. Derbyniodd Mrs Davies eu rhoddion, a diolch i Dduw am ffrwythau'r ddaear ac am waith dwylo dynol.

Yn y gwasanaeth diolchgarwch am y cynhaeaf, fe ddysgodd Rhys a Sara lawer mwy am y bobl sy'n addoli yn eglwys y plwyf. Roedden nhw nawr yn deall sut mae Cristnogion yn dibynnu ar Dduw am ffrwythau'r ddaear. Fe wnaethon nhw ddysgu hefyd sut mae Cristnogion yn cydweithio â Duw trwy waith dwylo dynol.

Fel roedd Rhys a Sara yn cerdded adref, roedd y ddau'n cytuno y bydden nhw'n hoffi rhannu rhai o'u pethau arbennig nhw gyda Tomos a Bethan. Stori arall yw'r pethau hynny.



Mae gan Rhys a Sara ddau ffrind sy'n Anglicaniaid. Eu henwau yw Bethan a Tomos. Mae eu mam yn offeiriad yn Eglwys Dewi Sant. Pan gaiff Rhys a Sara wahoddiad i ddod i rai gwasanaethau arbennig yn yr eglwys, maen nhw'n dechrau gofyn cwestiynau dyrys.

Pam mae eu ffrindiau'n dod ynghyd i rannu bara a gwin?

Beth yw gwir ystyr y Nadolig?

Ydi'r Beibl yn fwy na dim ond llyfr?

Bear Lands Publishing